# Pwyntiau Gweithredu

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol (yr Is-grŵp) | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 22 Awst 2018 | Lleoliad: | Fferm Coleg Gelli Aur, Sir Gaerfyrddin |

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson (Aelod a Chadeirydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC))
Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)
Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Sara Jenkins (Menter a Busnes)
Stephen Bradley (Dŵr Cymru)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)
Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru)
Bob Vaughan (CNC)
Marc Williams (CNC)
Brian Pawson (CNC)
Matt Lowe (CNC)
Jeremy Frost (Llywodraeth Cymru)
Luke Davies (Llywodraeth Cymru)
Kevin Taylor (Llywodraeth Cymru)
Jo Horder (Hybu Cig Cymru)
Jamie McCoy (AHDB)
Tim Bennett (CIEL (Canolfan Rhagoriaeth mewn Arloesedd ym maes Da Byw)) – eitemau 13–15 yn unig
Emma Taylor (PLANED) – eitemau 13 – 15 yn unig

**Ymddiheuriadau:**

Betsan John (Llywodraeth Cymru)
James Dowling (Llywodraeth Cymru)
Ryan Davies (Llywodraeth Cymru)
Laura Griffiths (Llywodraeth Cymru)
Eirwen Williams (Menter a Busnes)
Kirsten Hughes (Hybu Cig Cymru)
James Ruggeri (Hybu Cig Cymru)
Sarah Hetherington (CNC)
Geraint Weber (CNC)
Nichola Taylor (CNC)
Helen Haider (CNC)
Meinir Wigley (CNC)

| Rhif: | Eitem | Pwynt gweithredu |
|---|---|---|

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaeth Zoe Henderson longyfarch NFU Cymru a Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin ar ddigwyddiad ansawdd dŵr llwyddiannus a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Sir Gaerfyrddin. Roedd tua 200 o ffermwyr yn bresennol. Gyda'r holl wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau sydd bellach yn cael eu trefnu, mae'r lefel o weithgarwch yn codi ac mae'r Is-grŵp yn dechrau ysgogi newid.

***Pwynt gweithredu 1: Bydd Creighton Harvey yn dosbarthu'r daflen o ddigwyddiad NFU Cymru a Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin ar ansawdd dŵr i holl aelodau'r Is-grŵp.***

## 2. Diweddariad ar Brosiect Cyngor i Ffermwyr Llaeth CNC

Eglurodd Matt Lowe fod CNC wedi penodi wyth swyddog amaethyddol newydd tan fis Mawrth 2019, a bwriedir y bydd chwech o'r swyddogion hyn yn parhau i weithio yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol. Bydd staff CNC yn darparu hyfforddiant ymsefydlu mewnol ar gyfer y swyddogion newydd hyn yn ystod yr ail wythnos ym mis Medi. Darperir hyfforddiant allanol gan Harper Adams ym mis Hydref. Bydd y swyddogion newydd yn ymweld â ffermydd gyda swyddogion profiadol nes yr ystyrir eu bod yn gymwys i weithio ar eu pennau eu hunain. Cynhelir astudiaeth pen bwrdd i flaenoriaethu'r ymweliadau â ffermydd sydd ar y gweill, gan ddefnyddio'r meini prawf perthnasol gan gynnwys niferoedd stoc, y tir sydd ar gael a statws o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

***Pwynt gweithredu 2: Bydd Matt Lowe yn cysylltu â Sara Jenkins a Steven Bradley mewn perthynas â'r cynigion gan Cyswllt Ffermio a Dŵr Cymru i gynorthwyo gyda'r hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer swyddogion amaethyddol newydd CNC.***

***Pwynt gweithredu 3: Bydd Matt Lowe yn cysylltu ag Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru mewn perthynas â ffermydd a fyddai'n addas ar gyfer hyfforddiant ymsefydlu swyddogion amaethyddol newydd CNC.***

Wedyn bu trafodaeth ynghylch y gostyngiad yn nifer y ffermydd llaeth, er bod maint y fuches genedlaethol wedi cynyddu rhywfaint. Mae'n bwysig nodi nad ffermydd mawr a chanddynt niferoedd uchel o stoc sydd o reidrwydd yn peri'r risg uchaf o lygredd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mhennod 3 o adroddiad interim Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

***Pwynt gweithredu 4: Bydd Marc Williams yn anfon copi o adroddiad interim yr  Is-grŵp at Jeremy Frost a Luke Davies.***

Bu rhywfaint o drafod ychwanegol am yr awgrym ei bod yn bosibl nad oedd rhai ffermydd yn ystyried bod achosion o lygredd amaethyddol yn broblem benodol am fod yswiriant ganddynt beth bynnag. Nodwyd er ei bod yn bosibl y byddai'r yswiriant yn talu costau, na fyddai'n talu unrhyw gostau cyfreithiol neu ddirwyon, pe bai ffermwr yn peri llygredd neu’n torri unrhyw reoliadau.

***Pwynt gweithredu 5: Bydd Geraint Weber yn ystyried ychwanegu goblygiadau polisïau yswiriant ffermydd i'r fanyleb ar gyfer y Prosiect Dadansoddi Achosion Sylfaenol sydd yn yr arfaeth.***

## 3. Cyflwyniad AHDB / Gwybodaeth ar gyfer Ffermwyr

Rhoddodd Jamie McCoy gyflwyniad byr a dynnodd sylw at y ffaith fod nifer o adnoddau ar gael gan AHDB y mae'n bosibl nad yw pobl yn ymwybodol ohonynt. Er enghraifft, mae gan AHDB nifer o wahanol daflenni ar destunau megis manteision economaidd rheoli maethynnau – caiff ffermwyr archebu fersiynau papur neu maent ar gael ar-lein. Gwnaeth Jamie hefyd amlinellu'r rhaglen Slurry Wizard sydd ar gael ar-lein i ffermwyr ei defnyddio. Ar ôl i rywfaint o ddata fferm sylfaenol gael ei fewnbynnu, gall y rhaglen gynhyrchu adroddiad syml sy'n disgrifio'r camau gweithredu sy'n berthnasol i'r fferm honno, gan gynnwys capasiti storio slyri a chostau ar gyfer y gwelliannau i seilwaith sydd eu hangen.

***Pwynt gweithredu 6: Bydd Jamie McCoy yn anfon dolenni gwefan ar gyfer holl ddogfennau AHDB, y rhaglen Slurry Wizard ac ati, at aelodau'r Is-grŵp.***

***Pwynt gweithredu 7: Bydd aelodau'r Is-grŵp yn cysylltu â Jamie McCoy os bydd angen unrhyw gopïau papur ychwanegol o lyfryn cynghorol AHDB.***

Nodwyd y caiff unrhyw un danysgrifio ar gyfer cylchlythyr misol AHDB 'Forage for Knowledge' sy'n darparu gwybodaeth destunol ar gyfer tirfeddianwyr, ffermwyr, contractwyr ac ati. Mae hwn yn gylchlythyr ar gyfer y DU gyfan ac nid yw'n benodol i Gymru.

***Pwynt gweithredu 8: Bydd aelodau'r Is-grŵp yn cysylltu â Jamie McCoy os ydynt am ychwanegu unrhyw negeseuon allweddol at y cylchlythyr misol 'Forage for Knowledge'.***

Mae AHDB yn trefnu digwyddiad gaeafu da byw ac maent yn targedu de-orllewin Cymru lle mae dwysedd uchel o ffermydd llaeth.

***Pwynt gweithredu 9: Bydd aelodau'r Is-grŵp yn cysylltu â Jamie McCoy mewn perthynas ag unrhyw ffermydd sy'n gaeafu da byw, ac a fyddai'n addas ar gyfer cynnal digwyddiad trafod gan AHDB.***

## 4. Diweddariad ar Gronfa Bontio'r UE gan Lywodraeth Cymru

Eglurodd Brian Pawson fod CNC bellach wedi cyflwyno dau gais i Gronfa Bontio'r UE gan Lywodraeth Cymru. Y prosiect sydd fwyaf perthnasol i Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yw 'Gwella Cynaliadwyedd Cadwyni Cyflenwi Amaethyddol drwy Wella Ansawdd Dŵr'. Nid oedd amser i drafod hyn ag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru gan mai 10 Awst oedd y dyddiad cau. Nod y prosiect fydd darparu archwiliadau cyn-reoleiddiol ar gyfer ffermydd llaeth, cig eidion a dofednod penodol, gan gynnwys y rhai sy'n mewnforio deunyddiau organig i'w taenu ar y tir. Bydd yn adeiladu ar Brosiect Cyngor i Ffermwyr Llaeth cyfredol CNC drwy gwmpasu amrediad ehangach o fathau o ffermydd, a chysylltu â gwaith AHDB a Hybu Cig Cymru ar broffidioldeb ffermydd, ac yn ceisio penderfynu a yw'r ffermydd sydd â'r capasiti mwyaf i ymateb i'r heriau y mae Brexit yn eu peri hefyd yn bodloni'r safonau cynaliadwyedd sy'n debygol o fod yn ofynnol o dan Frand Cymru.

Lleisiodd rhai aelodau o'r grŵp amheuon ynghylch dehongli data ar broffidioldeb ffermydd a'r ffordd y gellir camddeall bod hyn yn rhan o brosiect arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru. Eglurodd Brian Pawson ei bod yn debygol y byddai Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ynghylch y cynigion prosiect erbyn canol mis Medi. Os bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn y cynnig o dan y prosiect 'Gwella Cynaliadwyedd Cadwyni Cyflenwi Amaethyddol drwy Wella Ansawdd Dŵr, bydd digon o amser o hyd i sicrhau bod manyleb derfynol y prosiect yn bodloni amcanion Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

## 5. Rhaglen Waith a Phrosiectau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Eglurodd Brian Pawson fod y cynllun gweithredu drafft yn adeiladu ar y ddogfen a ddosbarthwyd yn flaenorol ym mis Mehefin, a bod y sylwadau a dderbyniwyd eisoes gan aelodau bellach wedi cael eu hymgorffori. Mae bellach angen rhagor o sylwadau er mwyn sicrhau bod set glir o gamau gweithredu wedi cael eu cofnodi mewn perthynas â phob un o'r argymhellion yn adroddiad interim Fforwm Rheoli Tir Cymru. Wedyn bydd angen parhau i adolygu'r cynllun gweithredu'n rheolaidd.

***Pwynt gweithredu 10: Bydd aelodau'r Is-grŵp yn anfon unrhyw sylwadau pellach ar y cynllun gweithredu drafft (sydd bellach yn cynnwys y prosiectau arfaethedig ar gyfer 2018/19) at Marc Williams, Helen Haider a Brian Pawson. Byddai sylwadau ar yr amserlen a blaenoriaethau ar gyfer pob prosiect yn arbennig o ddefnyddiol.***

***Pwynt gweithredu 11: Bydd Marc Williams yn ychwanegu colofnau ychwanegol sy'n cynnwys 'I'w weithredu erbyn' a 'Camau gweithredu hyd yn hyn' at gynllun gweithredu drafft yr Is-grŵp. Bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Is-grŵp cyn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.***

Mewn perthynas â chyllideb yr Is-grŵp ar gyfer 2018/19, mae tri phrosiect ar wahân wedi cael eu nodi:

- Dadansoddi Achosion Sylfaenol (yn ategu Argymhelliad 3.1)
- Llwytho Maetholynnau ar Dir (yn ategu Argymhelliad 3.1)
- Diweddaru'r cyngor amaethyddol sydd ar gael ar wefan CNC. (yn ategu Argymhelliad 6.4)

Cadarnhaodd aelodau'r Is-grŵp eu bod yn dymuno i CNC fwrw ymlaen â'r tri phrosiect uchod. Byddai penderfyniad ynghylch a ddylid cefnogi'r agwedd fonitro ar Brosiect BRICs (Adeiladu Cydnerthedd o fewn Dalgylchoedd) (yn ategu Argymhelliad 5.1) yn cael ei wneud ar ôl y cyflwyniad arfaethedig gan Emma Taylor o PLANED.

Cadarnhaodd Zoe Henderson nad oedd ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud unrhyw sylwadau pellach ar adroddiad interim yr Is-grŵp. Cytunwyd na ddylai hyn atal yr Is-grŵp rhag parhau â'r prosiectau hynny sydd eisoes wedi cael eu nodi.

***Pwynt gweithredu 12: Bydd Marc Williams yn trefnu cyfarfod ychwanegol o'r Is-grŵp i geisio cwblhau cynllun gweithredu Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

## 6. Rhaglen Gyflawni Cyswllt Ffermio ar Lygredd Amaethyddol

Cadarnhaodd Sara Jenkins fod y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a ail-lansiwyd bellach wedi cael ei gyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet, gyda'r cyfnod ar gyfer mynegi diddordeb yn agor ar 3 Medi. Cynhelir y digwyddiad Ffermio Cynaliadwy cyntaf ar 4 Medi, gydag wyth digwyddiad arall yn cael eu cynnal ledled Cymru yn ystod mis Medi. Bydd ffilm fer yn cael ei dangos yn yr holl ddigwyddiadau Ffermio Cynaliadwy a bydd hon yn cynnwys esboniad o waith yr Is-grŵp.

Mae ffilm Cyswllt Ffermio ar lygredd amaethyddol bellach wedi cael ei golygu. Mae'r sleid olaf yn dangos logos yr holl sefydliadau sy'n aelodau o'r Is-grŵp.

***Pwynt gweithredu 13: Bydd Sara Jenkins yn gwirio bod logo Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn ymddangos ar sleid olaf y ffilm ar lygredd amaethyddol.***

Mae chwe digwyddiad ar lygredd amaethyddol a gynhelir ar ffermydd bellach wedi cael eu trefnu, fel rhan o Raglen Dalgylchoedd a Dargedir Cyswllt Cymru. Mewn dalgylchoedd mwy mae un sesiwn wedi'i chynllunio ar gyfer y bore ac un ar gyfer y prynhawn, er mwyn rheoli

nifer y mynychwyr a ddisgwylir. Gwahoddir contractwyr i'r holl ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod yr holl negeseuon allweddol yn cael eu lledaenu mor helaeth ag y bo modd.

Mae staff CNC wedi cynnal adolygiad ac wedi darparu sylwadau ar dair taflen ffeithiau Cyswllt Ffermio. Mae dwy o'r taflenni ffeithiau wedi cael eu diweddaru yn barod i'w hargraffu a byddant ar gael ar gyfer y digwyddiadau ffermio cynaliadwy. Bydd angen ailysgrifennu'r drydedd daflen ffeithiau ac ni fydd yn barod ar gyfer y digwyddiadau ffermio cynaliadwy.

Wedyn rhoddodd Kevin Taylor ddiweddariad ar y gwaith o gyflwyno'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, a bu rhagor o drafod am y rhesymau pam mae ffermwyr a grwpiau o ffermwyr organig yn cael eu graddio'n uwch na ffermwyr unigol a ffermydd traddodiadol unigol os bydd dau gais yn cael yr un sgôr. Mae'n debygol y bydd rhagor o drafod yn ystod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar 13/14 Medi.

Bydd y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ar gael i'r ffermwyr hynny sydd â seilwaith SSAFO (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) cyn1991, er mai'r prif bwynt yw ei bod yn rhaid i ymgeiswyr allu storio slyri am fwy na phedwar mis <u>ar ôl</u> i'r holl waith gael ei gwblhau, <u>ac</u> mae'n rhaid i'r storfa slyri orffenedig gael ei gorchuddio. Ni chaniateir diweddaru hen storfeydd slyri oni bai eu bod eisoes yn cydymffurfio â rheoliadau SSAFO, felly, mewn llawer o achosion bydd yn rhaid adeiladu storfeydd slyri newydd er mwyn bodloni'r meini prawf. Dadleuwyd y byddai'r dull hwn yn anfanteisiol i denantiaid sydd yn aml yn ei chael yn haws perswadio landlordiaid i ganiatáu iddynt ddiweddaru storfa. Eglurodd Kevin Taylor y byddai'n cwrdd â Keith Owen (Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol) yn fuan i drafod y mater o storfeydd slyri wedi'u gorchuddio.

Gwnaeth Kevin Taylor hefyd drafod yr amserlenni i ffermwyr wneud cais a chwblhau'r holl waith.

## 7. 'Brexit a'n Tir' (Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru)

Oherwydd cyfyngiadau ar amser, ni chafodd 'Brexit a'n Tir' ei drafod yn ystod y cyfarfod.

***Pwynt gweithredu 14: Bydd Marc Williams yn sicrhau bod 'Brexit a'n Tir' (Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru) ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf yr Is-grŵp.***

## 8. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

- 25 Medi – Canolfan Ymchwil yr Ucheldir, Pwllpeiran, Cwmystwyth, gan gynnwys ymweliad â'r lleiniau ymchwil
- 11 Hydref – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth
- 7 Tachwedd – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth

- 12 Rhagfyr – Swyddfeydd Undeb Amaethwyr Cymru, Aberystwyth

***Pwynt gweithredu 15: Bydd Marc Williams yn dosbarthu copi o lythyr diweddar Cyswllt Amgylchedd Cymru at Zoe Henderson.***

## 9. Diweddariad ar weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur

Nid oedd unrhyw ddiweddariadau ar weithgareddau yn y dyddiadur

## 10. Cofnodion cyfarfod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 18 Gorffennaf 2018

***Pwynt gweithredu 16: Anfonir unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cofnodion drafft o 18 Gorffennaf at Marc Williams erbyn diwedd y dydd, ddydd Gwener 24 Awst. Rhoddir fersiwn derfynol o'r cofnodion ar wefan CNC ar yr wythnos sy'n dechrau ar 27 Awst.***

## 11. Datganiadau o Fuddiant

Gwnaeth Zoe Henderson atgoffa aelodau'r Is-grŵp i anfon eu ffurflenni datganiadau o fuddiant at CNC, os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny.

***Pwynt gweithredu 17: Dylai aelodau'r Is-grŵp anfon unrhyw ffurflenni datganiadau o fuddiant nad ydynt wedi cael eu hanfon at Brian Pawson, Marc Williams neu Helen Haider.***

## 12. Unrhyw Fusnes Arall

Ni chodwyd unrhyw faterion o dan y pennawd hwn.

## 13. Canolfan Rhagoriaeth mewn Arloesedd ym maes Da Byw (CIEL)

Siaradodd Tim Bennett (Cadeirydd Bwrdd CIEL) am y gwaith mae angen ei wneud wrth nodi heriau allweddol i ffermydd da byw a darparu datrysiadau arloesol mewn partneriaeth â 12 prifysgol yn y DU. Mae llawer o ffermydd dofednod yn gwneud cyfraniad mawr iawn at yr agenda ymchwil, ac maent wedi gweithredu'r datblygiadau technolegol diweddaraf, ond mae gan ffermydd cig eidion a ffermydd defaid lawer o waith i'w wneud o hyd. Mae CIEL wedi helpu i ddatblygu cyfleusterau ymchwil sylweddol newydd ledled y DU, gyda'r nod o wella'r gwaith o gynhyrchu da byw ac ansawdd ar draws y gadwyn gyflenwi. Y brif dasg bellach yw sicrhau bod y gwaith hwn yn ysgogi prosiectau a rhaglenni ymchwil da.

***Pwynt gweithredu 18: Bydd Tim Bennett yn darparu copi o gyflwyniad PowerPoint yn crynhoi ei gyflwyniad ar CIEL. Bydd***

***Marc Williams yn dosbarthu'r cyflwyniad i aelodau'r Is-grŵp.***

## 14. Prosiect BRICs

Rhoddodd Emma Taylor (PLANED) sgwrs fer ar brosiect BRICs a thrafododd y cais am gyllid gan gyllideb Fforwm Rheoli Tir Cymru er mwyn cryfhau'r rhaglen fonitro. Bydd y monitro arfaethedig yn ceisio penderfynu a fu unrhyw welliannau i ansawdd dŵr o ganlyniad i weithredu ymyriadau penodol o fewn y dalgylch. Trafodwyd hefyd a allai genweirwyr yn Sir Benfro ymgymryd â samplu infertebratau er mwyn eu helpu gyda'r prosiect, yn yr un modd ag sy'n digwydd yn Sir Gaerfyrddin.

***Pwynt gweithredu 19: Bydd Marc Williams yn ailddosbarthu copi o gynnig BRICs am gyllid gan gyllideb Fforwm Rheoli Tir Cymru, ynghyd â dadansoddiad o'r costau fesul blwyddyn ariannol.***

***Pwynt gweithredu 20: Bydd aelodau'r Is-grŵp yn gwneud sylwadau pellach ar brosiect BRICs i Marc Williams.***

## 15. Taith a Sgwrs ar y System Didoli Slyri

Wedyn gwnaeth John Owen o Fferm Coleg Gelli Aur arwain taith o'r System Didoli Slyri gydag aelodau o'r Is-grŵp a gwesteion. Nid oedd y didolydd yn gweithio yn ystod ymweliad yr Is-grŵp ond eglurodd John sut roedd y broses yn gweithio. Mae'r didolydd yn cynnwys system dad-ddyfrio a phuro sy'n seiliedig ar electrolysis. Defnyddir hwn i hidlo slyri a thrin yr elfen dŵr nes ei bod o ansawdd sy'n addas i'w hailgylchu neu ei harllwys i gwrs dŵr. Bydd y dŵr yn cael ei fonitro cyn iddo gael ei arllwys i gwrs dŵr a bydd unrhyw ddŵr o ansawdd isel sy'n cael ei ganfod yn cael ei bwmpio drwy'r system unwaith eto. Bydd y prosiect yn gwerthuso'r gwaith o weithredu'r broses didoli slyri ac yn penderfynu a fyddai gwneud y system ar gael yn fasnachol a'i defnyddio ar ffermydd yn economaidd ddichonadwy.